CANLLAWIAU

# Cofnodi presenoldeb mewn ysgolion a lleoliadau o 29 Mehefin: coronafeirws

**Sut i gadw cofnod o’r plant sy’n mynd i’r ysgol yn ystod y pandemig.**

Rhan o:
Presenoldeb ac absonoldeb a Ysgolion: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf:
15 Mehefin 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
15 Mehefin 2020

### Cynnwys

Sut y dylem gofnodi presenoldeb yng Nghymru?

Pa god y dylid ei ddefnyddio?

Y cod ar gyfer dysgwyr nad oes disgwyl iddynt fod yn bresennol

Y cod ar gyfer dysgwyr sydd yn y grwpiau y mae disgwylir iddynt fod yn bresennol ar gyfer sesiwn ond nad ydynt yn bresennol oherwydd eu bod yn gwarchod eu hunain neu’n hunanynysu neu am resymau eraill

Y cod ar gyfer dysgwyr sydd yn y grwpiau y mae disgwylir iddynt fod yn bresennol ar gyfer sesiwn ond nad ydynt yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch

Defnyddio codau eraill i gofnodi absenoldeb awdurdodedig a phresenoldeb

## Sut y dylem gofnodi presenoldeb yng Nghymru?

Dylai ysgolion a lleoliadau addysg gadw cofnod o bresenoldeb, a dylai teuluoedd roi gwybod i'w lleoliad os nad yw eu plentyn yn gallu bod yn bresennol. Bydd hyn yn helpu ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i ddeall a chynllunio ar gyfer unrhyw rwystrau sy'n atal dysgwyr rhag dychwelyd i'r ysgol ac yn nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen. Os na fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol, yn enwedig oherwydd dewis rhieni/gofalwr, dylai'r ysgol gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r plentyn a'r teulu i sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu bodloni. Os bydd ysgolion wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i ymgysylltu â theuluoedd drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol, gall y Gwasanaeth Lles Addysg eu helpu gydag unrhyw gymorth pellach sydd ei angen.

Ni fyddwn yn disgwyl i deuluoedd anfon plant i’r ysgol yn erbyn eu hewyllys, ac yn yr hinsawdd sydd ohoni ni fyddai'n briodol i awdurdodau lleol/ysgolion roi hysbysiadau cosb benodedig. Fodd bynnag, dylai lleoliadau addysg gyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i sicrhau eu bod yn deall sut y mae'r risg o drosglwyddo'r haint yn cael eu lliniaru ac i roi sicrwydd i deuluoedd bod y lleoliadau'n ddiogel.

Ni fydd yn ddiogel i rai dysgwyr a staff dychwelyd i'r ysgol, ac mae'r categorïau hyn wedi'u hegluro ymhellach yn ein canllawiau gweithredol i ysgolion. Ceir rhagor o wybodaeth yma ynghylch pwy sydd yn y **categorïau agored i niwed ac eithriadol o agored i niwed**.

Dylai ysgolion gofnodi presenoldeb ac absenoldeb drwy ddefnyddio'r codau isod nes y clywir yn wahanol. Bydd y canllawiau ar gofnodi presenoldeb yn cael eu hadolygu'n rheolaidd wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Ni ddylid defnyddio’r data presenoldeb ar gyfer y blynyddoedd academaidd sydd wedi'u heffeithio gan yr amhariaeth barhaus i weithrediadau ysgolion fel rhan o'r trefniadau atebolrwydd arferol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynghori ysgolion ac awdurdodau lleol y bydd y gofynion a nodir yn Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 yn cael eu dileu, yn amodol ar ddeddfwriaeth. Felly, ni fydd angen i ysgolion adrodd ar dargedau'n ymwneud ag absenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, na gosod targedau ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

## Pa god y dylid ei ddefnyddio?

Ar gyfer yr holl blant sydd yn y grwpiau y disgwylir iddynt fod yn bresennol ar y diwrnod dan sylw neu sydd mewn grŵp blaenoriaeth (plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed), dylid cofnodi eu bod yn bresennol wrth iddynt gyrraedd yr ysgol neu'r lleoliad addysg.

## Y cod ar gyfer dysgwyr nad oes disgwyl iddynt fod yn bresennol

Dylid defnyddio’r Cod Y (ddim angen bod yn yr ysgol) ar gyfer unrhyw ddysgwr nad yw yn y grwpiau y disgwylir iddynt fod yn bresennol ar y diwrnod dan sylw neu mewn grŵp blaenoriaeth (plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed).

## Y cod ar gyfer dysgwyr sydd yn y grwpiau y mae disgwylir iddynt fod yn bresennol ar gyfer sesiwn ond nad ydynt yn bresennol oherwydd eu bod yn gwarchod eu hunain neu’n hunanynysu neu am resymau eraill

Mae hyn yn cynnwys plant sydd yn y grwpiau y disgwylir iddynt fod yn bresennol mewn sesiwn neu sydd mewn grŵp blaenoriaeth (plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed) ond nad ydynt yn bresennol oherwydd eu bod yn gwarchod eu hunain neu’n hunanynysu. Dylid defnyddio’r Cod C (amgylchiadau awdurdodedig eraill (nad yw wedi'u cwmpasu gan god/disgrifiad priodol arall)) ar eu cyfer. Gellir defnyddio’r cod C, nes y clywir yn wahanol, lle nad oes modd i ddysgwr ddychwelyd i'r ysgol oherwydd ei fod yn dilyn canllawiau'r llywodraeth ar y coronafeirws.

Os nad yw dysgwr yn bresennol pan fo disgwyl iddo fod yn bresennol ond nad yw’n gwarchod ei hun nac yn hunanynysu, ac nad yw unrhyw god absenoldeb awdurdodedig arall yn briodol, dylid defnyddio'r Cod C i gofnodi ei absenoldeb. Byddai hyn yn cynnwys dysgwr nad yw ei deulu'n fodlon â’r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â bod yn yr ysgol ac maent yn bryderus ynghylch anfon eu plentyn i'r ysgol. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai rhieni/gofalwyr hysbysu'r ysgol cyn gynted â phosibl na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol ac egluro'r rheswm pam.

Nes y clywir yn wahanol, dylid nodi pob absenoldeb fel absenoldeb awdurdodedig ond, fel y nodwyd uchod, dylai ysgolion gysylltu â rhieni/gofalwyr i ddeall pam nad yw eu plentyn yn mynychu a sicrhau nad oes unrhyw bryderon ynghylch eu hanghenion lles. Dylai'r ysgol neu’r lleoliad addysg, a'r awdurdod lleol lle bo'n berthnasol, ymdrin ag unrhyw bryderon.

## Y cod ar gyfer dysgwyr sydd yn y grwpiau y mae disgwylir iddynt fod yn bresennol ar gyfer sesiwn ond nad ydynt yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch

Os nad yw dysgwr yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch, dylid defnyddio'r Cod I (salwch) yn ôl yr arfer.

## Defnyddio codau eraill i gofnodi absenoldeb awdurdodedig a phresenoldeb

Os byddai’n fwy priodol defnyddio codau eraill ar gyfer absenoldeb awdurdodedig a phresenoldeb, fel y Cod M (apwyntiad meddygol), gall ysgolion ddefnyddio'r codau hynny yn ôl yr arfer.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
15 Mehefin 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
15 Mehefin 2020

**Rhan o**
Presenoldeb ac absonoldeb
Ysgolion: coronafeirws